# TROSEDD BYWYD GWYLLT



## 1. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. I ostwng trosedd bywyd gwyllt yng Ngwynedd
2. I godi ymwybyddiaeth ynghylch bywyd gwyllt a'r gyfraith ymhlith y cyhoedd, yn cynnwys plant.
3. I weithio gydag eraill sy'n rhannu amcanion tebyg.

## 2. GWEITHREDU ARFAETHEDIG

| **Côd** | **Camau** | **Partneriaid**[a] |
|---|---|---|
| 1 | Cymryd camau cyfrifol, pan yn addas ac yn ddiogel i wneud hynny, i rwystro tor-cyfraith yng nghyswllt deddfau'n ymwneud â bywyd gwyllt.<br>TARGED: AMSERLEN: Cyfredol | **HGC,** CCGC, CCth, CG, |
| 2 | Adrodd ynghylch unrhyw dor-cyfraith yng nghyswllt deddfau'n ymwneud â bywyd gwyllt i Gydgysylltydd Bywyd Gwyllt yr Heddlu.<br>TARGED: AMSERLEN: Cyfredol | **CG**, Partneriaid perthnasol |
| 3 | Defnyddio papurau lleol, y radio a theledu, systemau e-bost mewnol, cylchlythyrau, ayyb i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â diogelwch rhywogaeth a chynefinoedd, ac i annog aelodau'r cyhoedd a staff sefydliadau cysylltiol i hysbysu'n brydlon unrhyw dorcyfraith posib o'r deddfau sy'n ymwneud â bywyd gwyllt i Gydgysylltydd Bywyd Gwyllt yr Heddlu.<br>TARGED: AMSERLEN: Cyfredol | **HGC,** CCGC, AA, CCth, CG, |
| 4 | Mynychu sioeau lleol, digwyddiadau cyhoeddus a chyflwyniadau gydag arddangosfeydd/ taflenni codi ymwybyddiaeth, yn cynnwys taflenni PGTFG ar drosedd bywyd gwyllt.[b]<br>TARGED: AMSERLEN: Cyfredol | **HGC** |
| 5 | Cyflwyno gwybodaeth ar ddeddfwriaeth rhywogaeth a chynefinoedd i sefydliadau partneriaethol a sefydliadau/ unigolion eraill.<br>TARGED: AMSERLEN: Yn ôl y galw | **HGC**, CCGC, CCth |
| 6 | Hysbysu yr holl sefydliadau partneriaethol/ cyrff perthnasol eraill am ddigwyddiadau a datblygiadau yn y gyfraith er mwyn lleihau trosedd bywyd gwyllt.<br>TARGED: AMSERLEN: Cyfredol | **HGC**, CCGC, CCth |
| 7 | Cynhyrchu fersiwn newydd o'r daflen Bywyd Gwyllt ac Adeiladau a'i chylchredeg iymgeiswyr caniatad cynnlunio benseiri, datblygwyr,a 'r rhai hynny sy'n derbyn grant adnewyddu tŷ | **CG,** CCGC, GYG, HGC |
| 8 | Codi ymwybyddiaeth am faterion rhywogaethau wedi eu gwarchod ymysg stafff Cyngor gwynedd gan gynnwys Rheolaeth datblygu a Phriffyrdd, staf Asiantaeth yr Amgychedd ac i ymgeiswyr caniatad cynnlunio benseiri, datblygwyr,a 'r rhai hynny sy'n derbyn grant adnewyddu tŷ drwy gylchredeg deunydd pertnasol<br>TARGED: AMSERLEN: i'w osod, Cyfredol | **CG,** partneriaid perthnasol[c] |

---

[a] Mae'r prif bartner ar gyfer y gweithrediad hwn wedi ei nodi mewn ysgrifen dywyll, gweler adran 3.2 am eglurhad o'r byrfoddau

[b] Mae'r Bartneriaeth ar gyfer gweithredu yn erbyn trosedd bywyd gwyllt (PAWS - Partnership for Action Against Wildlife Crime) wedi cynhyrchu cyfres o daflenni ar wahanol elfennau o drosedd bywyd gwyllt yn cynnwys; Troseddau yn erbyn Mamaliaid Gwyllt, Adar Gwyllt a'r Gyfraith, Planhigion Gwyllt a'r Gyfraith

## 3. PARTNERIAID A CHYFLEOEDD

### 3.1 Prif Bartner ar gyfer CGP

Heddlu Gogledd Cymru (HGC)

### 3.2 Partneriaid Allweddol

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Comisiwn Coedwigaeth (CCth)

Cyngor Gwynedd (CG)

Grŵp Ystlumod Gwynedd GYG

### 3.3 Cyfleon

Grwpiau cymunedol, y cyhoedd

## 4. DIOLCHIADAU

Prif Awdur: Sgt Peter Charleston (HGC)
Ymgynghorydd: Peter Jones (CCth)

## 5. BYRFODDAU

PGTFG: Partneriaeth Gweithredu yn erbyn Trosedd at Fywyd Gwyllt (PGTFG)

Cysylltwch am wybodaeth bellach â: Sarjant Pete Charleston, Swyddog Bywyd Gwyllt a'r Amgylchedd, Heddlu Gogledd Cymru. Tel: 01248 385784 neu e-bost P.Charleston@ccw.gov.uk.